

## CYLCHLYTHYR

### Partneriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru: y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Dyddiad:** 24 Gorffennaf 2015

**Cyfeirnod:** 14/13

**At:** Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y  
Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng  
Cymraeg sefydliadol

**Ymateb Erbyn:** 18 Medi 2015

**Cyswllt:** Dr Ioan Matthews  
[i.matthews@colegcymraeg.ac.uk](mailto:i.matthews@colegcymraeg.ac.uk)

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**  
<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/cylchlythyron/2014-15/>

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sefydlu partneriaeth gydag Eisteddfod Genedlaethol Cymru er mwyn trefnu gweithgareddau'r Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn y dyfodol.

Mae'r Pafiliwn Gwyddoniaeth yn un o'r unedau mwyaf poblogaidd ar faes yr Eisteddfod. Mae dros 20,000 o bobl, gan gynnwys nifer fawr o blant, yn ymweld â'r Pafiliwn bob blwyddyn, a'r nod canolog yw hyrwyddo STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Mae prif amcanion y Pafiliwn Gwyddoniaeth yn cynnwys:

- Cydweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Cyngorau Ymchwil, Cymunedau, Cymdeithasau, Sefydliadau Proffesiynol a'r Sector Preifat i gynnal rhaglen lawn o weithgareddau i hyrwyddo STEM yn ystod wythnos yr Eisteddfod;
- Hybu dealltwriaeth y cyhoedd o STEM, yn enwedig teuluoedd;
- Ysgogi diddordeb mewn STEM ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion, gan ddangos bod y Gymraeg yn gyfrwng addas i ymdrin â'r meysydd hyn;
- Ysgogi pobl ifanc i ystyried gyrfaedd mewn STEM ac i ystyried addysg uwch yn y meysydd hynny;
- Cefnogi cwricwlwm yr ysgolion, ac ysgogi cyrhaeddiad disgyblion sydd yn astudio STEM;
- Gwneud Gwyddoniaeth yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, ac yn enwedig pobl o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r Coleg wedi cytuno i weithio gyda'r Eisteddfod i drefnu a chynnal gweithgareddau'r Pafiliwn Gwyddoniaeth (yn ychwanegol at ein rhaglen flynyddol arferol o weithgareddau yn uned y Coleg ar y maes, a fydd yn parhau). Mae cytundeb ffurfiol yn cael ei baratoi ar hyn o bryd, ond bydd dyletswyddau'r Coleg yn ymwneud yn bennaf â threfnu'r arddangosfeydd a'r rhaglen, yn ogystal â chydweithio gyda'r pwyllgor lleol a phanel cenedlaethol yr Eisteddfod.

Bydd llwyddiant y fenter hon yn dibynnu'n helaeth ar ein partneriaeth gyda'r prifysgolion, ac ar barodrwydd y prifysgolion i gyfrannu at y rhaglen o weithgareddau, ac i annog cwmnïau a phartneriaid yn y maes gwyddonol i wneud hynny yn ogystal. Mae'n bosibl y byddai modd cytuno ar rôl fwy canolog i sefydliadau unigol o flwyddyn i flwyddyn, gan ddibynnu ar leoliad yr Eisteddfod. (Cynhelir yr Eisteddfod yn Y Fenni yn 2016, ar Ynys Môn yn 2017 ac – yn ôl pob tebyg – yng Nghaerdydd yn 2018).

Mae'n ddyddiau cynnar iawn ar y prosiect, ond mae'r Coleg yn awyddus i wahodd y prifysgolion i ymateb i ddau gwestiwn ar hyn o bryd:

- A fyddai eich sefydliad yn barod i fod yn rhan o bartneriaeth ffurfiol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i drefnu a chefnogi gweithgareddau'r Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan gychwyn yn 2016?

- A fyddai gan eich sefydliad ddiddordeb mewn chwarae rôl arweiniol mewn perthynas â'r Babell Wyddoniaeth yn 2016, 2017 neu 2018?

Mae gennym ddiddordeb penodol, ar hyn o bryd, mewn datganiadau diddordeb mewn perthynas ag Eisteddfod Sir Fynwy 2016 yn Y Fenni. Bydd nifer o gyfleoedd noddi ar gael yn ogystal.

Mae'n fwriad sefydlu Bwrdd Prosiect i gyfarfod yn achlysurol i drafod cynnydd a gwahoddir pob sefydliad sydd yn ymuno â'r fenter i enwebu cynrychiolydd.

Gofynnir am ymatebion erbyn 18 Medi 2015.